

# 2024–2025

## Adroddiad Sefydliadol #22

**Y cyfnod dan sylw: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2024**

Llun: Prif enillwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2024, Tom Bullough a Mari George **Credyd llun:** Iolo Penri / Literature Wales

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys


Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau chwarter 2 4

Ein lle yn y sector 5

Ein heffaith:

Astudiaeth Achos: Rachel Dawson 6

Cynnydd yn erbyn ein targedau

Cyngor Celfyddydau 2024-25 8

Cynaladwyedd 20

Gwersi i'w Dysgu

Gweithgaredd a Gweithredol 21


## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol

Rydyn ni'n ysgrifennu hwn yng nghanol wythnos brysur tu hwnt, ac mae'n anodd cymryd cam yn ôl i edrych dros y tri mis diwethaf. Rydyn ni newydd ddeall ein bod wedi cael dros 130 o geisiadau i raglen Cynrychioli Cymru eleni. Er bod hynny'n adlewyrchiad gwych o'r ffordd y mae'r cynllun yn taro tant ag awduron yng Nghymru, mae'r problemau sy'n dod law yn llaw â llwyddiant yn rhai go iawn. Dyna 116 o awduron y bydd yn rhaid mynd ati'n sensitif i'w gwrthod, i'w cefnogi ac i'w cyfeirio at weithgareddau addas eraill, ac mae hynny'n waith heriol sy'n llyncu amser. Rydyn ni'n edrych ar sut y gallwn ni agor mwy o elfennau'r rhaglen i'r cyhoedd drwy weminarau, er mwyn rhoi rhywfaint o gymorth i'r awduron hynny. Fodd bynnag, bydd angen cadw'r ymdeimlad o fri sydd i'r rhaglen a pharhau i roi sylw dyledus i'r grŵp a gaiff ei ddewis.

Rydyn ni hefyd wedi cael y teimlad egnïol hwnnw o fynd 'yn ôl i'r ysgol' dros y misoedd diwethaf. Mae partneriaethau'n datblygu, mae prosiectau'n mynd rhagddyn nhw, ac mae ceisiadau am gyllid wedi cael eu cyflwyno. Er enghraifft, mae prosiectau peilot y Sgwadiau 'Sgwennu yn paratoi i gychwyn ym mis Hydref, gydag artistiaid wedi'u dewis a'r broses recriwtio wedi dechrau ar gyfer y sesiynau yng Nghonwy a Maesteg. Ein prif bryder wastad yw bod bwlch rhwng ein huchelgais a'n syniadau ar y naill law, a'n gallu i ariannu'r gwaith ar y llaw arall. Gall hynny arwain at rwystredigaeth yn fewnol ac yn allanol wrth geisio ymateb i'r anghenion. Mae hynny, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch yr arian a ddaw o du'r llywodraeth yn y dyfodol, yn creu gofid ac ymdeimlad yn y sector bod ein llygaid ar y tymor byr yn unig.

Dros yr haf, roedden ni'n falch o weld Pwyllgor Diwylliant y Senedd yn lansio ymchwiliad i effaith toriadau mewn cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon. Fe gymeron ni ran yn yr ymchwiliad hwnnw, ac rydyn ni bellach yn aros am adroddiad y pwyllgor. Mae modd gweld ein hymateb ysgrifenedig fan hyn. I gyd-fynd â hynny, cafwyd cyfarfod un-i-un â chadeirydd y pwyllgor a cymeron ni ran mewn cyfarfod i gasglu tystiolaeth. Mae disgwyl cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 ar 10 Rhagfyr, ac rydyn ni'n aros am honno gan ddal ein hanadl. Nid oes unrhyw arwydd pendant hyd yma a ddylen ni ddisgwyl rhagor o doriadau ynteu a fydd diddordeb o'r newydd mewn rhoi arian digonol i'r celfyddydau.

Yn y cyfamser, rydyn ni'n parhau i wneud cymaint ag y gallwn ni, ac yn defnyddio ein hadnoddau i ariannu nifer helaeth o brosiectau anhygoel. Mae modd darllen am y rheini yn yr adroddiad hwn – ymlaen â ni!

**Claire Furlong**, Cyfarwyddwr Gweithredol
**Leusa Llewelyn**, Cyfarwyddwr Artistig



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Cynhaliwyd seremoni Gwobr Llyfr y Flwyddyn ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd 12 o wobrau a rhoddwyd cyfanswm o £14,000 mewn gwobrau ariannol i'r awduron. Gyda chefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru, cynigiwyd cyllid o hyd at 75% i noddi digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r awduron ar y rhestr fer. Ers hynny, mae digwyddiadau wedi'u cynnal ledled Cymru, gan gynnwys yng Nghaerdydd, Tyddewi, Caernarfon a Bangor. Mae'r ffenestr ar gyfer cyflwyno llyfrau i Wobr 2025 bellach ar agor.
- Lansiwyd Y Pair ym mis Awst. Prosiect newydd yw Y Pair sy'n ceisio creu llyfryddiaeth ddigidol Gymraeg o adnoddau a dyfyniadau i helpu hwyluswyr creadigol sy'n cynllunio ac yn darparu gweithdai llenyddol ym maes llesiant.
- Mewn partneriaeth â Menter Caerdydd a Tafwyl, cynhaliodd Nia Morais, Bardd Plant Cymru, sgwad sgwennu i blant ym mlynyddoedd tri a phedwar.
- Cynigiodd Cynrychioli Cymru ddau weminar yn rhad ac am ddim i helpu pobl i ddeall y diwydiant yn well. Clywodd awduron o bob rhan o Gymru gan gyhoeddwyr o Gymru (rhai Cymraeg a Saesneg) ac o sawl rhan o'r Deyrnas Unedig.
- Cynhaliodd Elinor Wyn Reynolds sesiynau ysgrifennu creadigol yn Llandysul. Mae Yr Ardd yn gweithio gyda Ieuenctid Tysul, gwirfoddolwyr, a dysgwyr Cymraeg i fynd i'r afael â gorbryder am yr hinsawdd yn lleol drwy lenyddiaeth, ac mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Brechfa.
- Agorodd tri chyfle datblygu i geisiadau yn Chwarter 2: mae Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad yn cynnig cwrs ysgrifennu creadigol rhithwir i awduron Byddar a/neu Anabl a/neu Niwroamrywiol. Mae Llyfrau Lliwgar yn cefnogi awduron LHDTC+ Cymraeg i fynd i encil yn Nhŷ Newydd, tra bo Cynrychioli Cymru yn cynnig rhaglen datblygu awduron ddwys dros 12 mis i awduron yng Nghymru sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yn ein sector llenyddiaeth.
- Croesawodd Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd 195 o westeion i 17 o gyrsiau preswyl, gan gynnwys cwrs ysgrifennu ffuglen dan ofal y tiwtoriaid Cynan Jones a Vanessa Gebbie ac encil ysgrifennu creadigol a nofio gwyllt dan ofal y tiwtoriaid Grug Muse a Hanan Issa.




Cyhoeddwyd mai Tom Bullough a Mari George oedd prif enillwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2024.




(un)common: Cyhoeddwyd antholeg newydd o waith ysgrifennu gan awduron Cynrychioli Cymru.




Fis Awst, cefnogodd Llenyddiaeth Cymru amrywiaeth o ddigwyddiadau a sgyrsiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Sefydlodd yr awdur a'r bardd Casia Wiliam grŵp ysgrifennu creadigol newydd fel rhan o'n cynllun Llên mewn Lle.



Gweithdy a gynhaliwyd gan Natasha Borton yn Ysgol Penrhyn, Wrecsam, fel rhan o'r cynllun Bwyd a Hwyl.




Cyhoeddwyd enwau'r 15 mentor a fydd yn rhan o gynllun Cynrychioli Cymru 2024-2025.

## Gweithrediadau

- Mae cyfarfodydd staff wedi parhau i gael eu cynnal bob pythefnos, ac wedi cynnwys cyflwyniadau am effaith prosiectau (fel cyflwyniadau am ein beirdd plant a chynllun Cynrychioli Cymru), ynghyd â negeseuon atgoffa am dasgau gweithredol (gan gynnwys sesiwn ddiweddaru am effaith a sesiwn am gyfathrebu hygyrch).
- Cynhaliwyd cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fis Awst drwy Zoom. Croesawyd Asma Khan i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac etholwyd Steve Dimmick yn Ddirprwy Gadeirydd newydd.
- Treialodd y staff system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd – Beacon. Mae Llenyddiaeth Cymru wedi penderfynu defnyddio'r system hon a byddwn yn dechrau gosod y feddalwedd dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn gwella sut rydyn ni fel sefydliad yn storio data ac yn cadw golwg ar ein perthynas â chyllidwyr, awduron a rhanddeiliaid eraill.
- Trefnodd ein Swyddog Diogelu sesiynau i'r staff er mwyn eu hannog i ystyried materion diogelu fel rhan o holl brosiectau Llenyddiaeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n rhagweithiol wrth gyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r rheini sy'n bresennol neu sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau.
- Yn ystod y chwarter hwn, cwblhawyd y gwaith o gyfrifo'r ffioedd cyfartalog a dalodd Llenyddiaeth Cymru i awduron am wahanol fathau o weithgareddau yn 2023-24. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein haddewid i dalu ffioedd teg, ac mae'n ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i eirioli dros y ffioedd hyn.
- Fis Medi, anfonwyd ein Hadroddiad Blynyddol at y cyfrifwyr i'w gwblhau, fel ein bod yn barod i gyflwyno hwnnw mewn da bryd i'r Comisiwn Elusennau.

# Ein lle yn y Sector

Parhaodd y staff i fod yn hael â'u hamser a'u harbenigedd wrth helpu gyda gwaith datblygu yn y chwarter hwn.

Rydyn ni wedi helpu sefydliadau sy'n arbenigo mewn meysydd ar wahân i lenyddiaeth i ddatblygu rhaglenni ac i wneud eu galwadau. Un enghraifft o hynny yw cynllun Tuag Opera Tŷ Cerdd, sy'n ceisio datblygu cyfansoddwyr/libretwyr Cymraeg newydd. Cafodd un awdur ei hannog i wneud cais ar ôl cymryd rhan yn ein cwrs preswyl Cymraeg, Kathod, a bu'n llwyddiannus. Dywedodd: *"Mae'n siŵr eich bod chi wedi gweld y newyddion, ond rydw i wedi cael lle ar gynllun Tuag Opera. Diolch i bawb ohonoch chi yn Nhŷ Newydd ac i Kathod oherwydd fyddwn i byth wedi dychmygu gwneud cais cyn magu cymaint o hyder ar yr encil."*


Enghraifft arall yw helpu Cyngor Ffoaduriaid Cymru gyda'i brosiect Llunio Cenhedloedd. Rydyn ni wedi argymell awduron sydd â phrofiad bywyd o fod yn ffoaduriaid neu'n fudwyr i arwain gweithdai ac i wneud gwaith comisiwn ar gyfer arddangosfa gyhoeddus.

Fel wastad, mae ein staff yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn helpu awduron unigol gydag ymholiadau amrywiol iawn. Er enghraifft, cafwyd ymholiad am weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ŵyl ym Mrwsel, ymholiad am gefnogi ceisiadau i raglen Arweinyddiaeth Greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru, ac ymholiad yn chwilio am gyngor am lwybrau addas i gyhoeddi.

Yn olaf, rydyn ni wedi sicrhau bod ein llais wedi'i glywed yn glir yn ystod ymchwiliad diweddar Pwyllgor Diwylliant Llywodraeth Cymru i effaith toriadau ariannol ar y sector. Drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, drwy gael cyfarfod personol â chadeirydd y pwyllgor, a thrwy gymryd rhan mewn sesiwn grŵp ffocws, rydyn ni wedi sicrhau bod ein barn wedi'i chlywed am sut y mae'r toriadau wedi effeithio ar ein sefydliad ac ar awduron Cymru, a sut y gallan nhw wneud hynny yn y dyfodol.

# Astudiaeth Achos: Taith Awdur Trawsnewidiol Rachel Dawson gyda Llenyddiaeth Cymru





Thank you to all at Literature Wales: special thanks must go to Petra Bennett for her support in early 2020, Katherine Stansfield for her excellent teaching, and Rebecca F. John for her mentorship and friendship. I'm also very grateful for the friends I've made through Literature Wales, particularly Efa Lois. *Diolch i Efa am y crempogau a'r sgyrsiau.*

Llun Uchaf: Rachel Dawson.
Credyd llun: Rhi Dixon
Llun Isaf: Yn dangos dyfyniad o'r cydnabyddiaethau *Neon Roses*

*"Roedd cael seibiant o'r gwaith yn rhoi'r amser a'r llonyddwch yr oeddwn ei angen i fireinio Eluned fel cymeriad a rhoi llais i Neon Roses"*

Yn 2012, roedd Rachel Dawson yn egin fardd oedd yn mwynhau ysgrifennu a pherfformio barddoniaeth. Ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae hi'n gweithio ar ei hail nofel wedi iddi gael cryn dipyn o lwyddiant gyda'i nofel gyntaf, *Neon Roses* (John Murray), sydd wedi cyrraedd rhestrau byrion Gwobr Polari, Gwobr Betty Trask a Gwobr Llyfr y Flwyddyn. Mae'r astudiaeth achos hwn yn archwilio sut y mae Llenyddiaeth Cymru wedi cyfrannu at siwrne awdur Rachel, o'r cyswllt cyntaf hyd heddiw, lle mae hi'n gwasanaethu fel mentor.

*"Ar y pryd roeddwn yn gweithio'n llawn amser mewn swydd newydd, a feiddiwn i ddim dychmygu gyrfa i fi fy hunan fel awdur."*

## Cyswllt gyda Llenyddiaeth Cymru

Daeth Rachel ar draws Llenyddiaeth Cymru am y tro cyntaf trwy Christina Thatcher pan wnaeth hi ymuno â Roath Writers. Barddoniaeth a gair llafar oedd diléit Rachel bryd hynny, ond daeth ei siwrne greadigol i stop oherwydd ei bod mewn swydd anhapus lle cawsai ei thrin yn wael. Ar ôl gadael y swydd hon er mwyn ei lles meddyliol, trodd unwaith eto at ysgrifennu. Y tro hwn, ffuglen oedd yn mynd â'i bryd. Gydag anogaeth gan Christina, gwnaeth gais am Ysgoloriaeth Awdur Newydd gan Llenyddiaeth Cymru, moment allweddol lwyddodd i ailgynnau ei hangerdd dros ysgrifennu.


Roedd ein **Hysgoloriaethau Awdur Newydd** yn rhagflaenu Cynrychioli Cymru, ac yn cynnig gwobr ariannol, mentora un-wrth-un, a chwrs pwrpasol yn Nhŷ Newydd i egin awduron. Roedd y gefnogaeth ariannol wedi galluogi Rachel i gymryd hoe o'i swydd er mwyn canolbwyntio ar gwblhau ei nofel, Neon Roses.

Mentor Rachel oedd **Rebecca F. John**, ac roedd y cwrs a fynychodd dan arweiniad **Katherine Stansfield**. Cafodd y mentora gan Rebecca a'r gweithdai gyda Katherine effaith ddwys ar ddatblygiad Rachel. Roedd sesiynau Katherine ar gymeriad, llais a safbwynt yn arbennig o ddylanwadol, ac ers hynny mae Rachel wedi ymgorffori'r gwersi hyn pan mae hithau'n mynd ati i ddysgu eraill. Roedd adborth cynhwysfawr Rebecca yn amhrisiadwy – o'i chraffter golygyddol o un llinell i'r llall, i gyngor strwythurol. Golygodd hynny fod y broses o ail-ddrafftio yn llwyddiannus. Darparodd gyfarwyddyd hefyd ar sut i ddeall a gwneud ei ffordd drwy'r diwydiant cyhoeddi, yn enwedig materion fel mynd at asiantau a chyhoeddwyr, marchnata a ffeindio eich lle yn y diwydiant.

*Roedd Rebecca yn hael iawn gyda'i hamser ac fe roddodd ystod enfawr o adborth i mi. Rhoddodd lawer o gyngor realistig, di-lol iawn i mi am y diwydiant cyhoeddi, a chredaf fod hyn yn allweddol yn fy nghynrychiolaeth yn gymharol gyflym.*

# Astudiaeth Achos: *Yn parhau*

Roedd derbyn Ysgoloriaeth gan Llenyddiaeth Cymru yn ardystiad o'i gallu, ac yn hollbwysig wrth chwilio am asiant. Roedd hynny oherwydd bod ei llwyddiant mewn cyfleoedd cystadleuol a'i mentora gan Rebecca F. John yn rhoi rhagor o hygrededd iddi. Cyhoeddwyd *Neon Roses* gan John Murray Press yn 2023, ac mae Rachel yn cydnabod cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru yn y llyfr. Mae'r nofel wedi cyrraedd rhestr fer Gwobr Polari, Gwobr Betty Trask a Gwobr Llyfr y Flwyddyn, ac mae'n nodi fod hynny'n garreg filltir gyffrous.




Yn 2024 dewiswyd Rachel i fod yn un o garfan **Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli**. Roedd y cyfle yn ysgubol a chyfoethog – "cyfle unigryw, sydd ond yn cael ei gynnig unwaith mewn oes!". Yn ystod y rhaglen plannwyd hedyn ail nofel, sy'n archwilio bod yn rhiant cwiar a chariad at hanes, ac mae'n datblygu'r syniad ar hyn o bryd.

Un o'r buddion mwyaf i Rachel yn sgil ei chysylltiad â Llenyddiaeth Cymru yw'r cyfeillion y mae hi wedi eu darganfod, a'r cysylltiadau a rhwydweithiau y mae hi wedi eu meithrin. Mae hi'n parhau fod mewn cyswllt rheolaidd gydag awduron y treuliodd amser gyda nhw yn Nhŷ Newydd a Gŵyl y Gelli, ac yn eu hystyried yn gyfeillion agos. Mae wedi cynnal cysylltiadau cyfoethog gydag unigolion o'r un anian yn ogystal â chysylltiadau proffesiynol defnyddiol, gan feithrin rhwydwaith cefnogol.

*"Mae bod yn gysylltiedig â Llenyddiaeth Cymru yn gwneud i mi deimlo fy mod i wir yn awdur, ac yn rhan o dirwedd lenyddol Cymru."*

Yn fwy diweddar, mae Rachel wedi gweld ei hun yn trawsnewid yn "awdur wrth ei gwaith". Mae hi'n defnyddio gwefan Llenyddiaeth Cymru i wella ei phlatfform – mae ganddi broffil ar **Restr Awduron Cymru**, ac mae'n rhestru digwyddiadau ar y dudalen **Digwyddiadau**. Mae Rachel yn cymryd rhan mewn darlleniadau a seminarau, ac mae'n cael cynnig cyfleoedd â thâl i weithio fel awdur y tu hwnt i wasanaethau a phrosiectau Llenyddiaeth Cymru.

*"Rydw i mor hapus i fod yn fentor Cynrychioli Cymru ... mae'n teimlo fel bod y cylch yn gyflawn! ... Rwy'n teimlo'n ffodus iawn i fod yn fentor a chael rhywun yn ymddiried eu gwaith imi. Mae'n gymaint o fraint!"*

Ar hyn o bryd, mae Rachel yn un o fentoriaid Cynrychioli Cymru. Hi oedd dewis cyntaf y person mae hi'n ei fentora. Yn 2025 bydd yn ddarllenydd gwadd yn Nhŷ Newydd am y tro cyntaf. Mae'n gobeithio datblygu'r gwaith hwn, yn gobeithio gweithio fel tiwtor a mentor, a chael y cyfle i drosglwyddo'r hyn y mae wedi ei ddysgu i eraill.

## Casgliad

Mae taith Rachel gyda Llenyddiaeth Cymru yn dangos pa mor bwerus a thrawsnewidiol gall cefnogaeth a mentoriaeth fod yn y byd llenyddol. O ailgynnau angerdd tuag at ysgrifennu, i'w helpu i gyflawni cerrig milltir broffesiynol, rydym yn falch o fod wedi chwarae rhan fach yn nhaith Rachel i lywio ei gyrfa ysgrifennu a meithrin cymuned lenyddol fywiog.

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Creadigrwydd

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Sector byrlymus sy'n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 8 darn o waith comisiwn newydd gan y Bardd Cenedlaethol, wedi'u cyhoeddi a/neu berfformio. | Mae Hanan wedi cwblhau dwy gerdd sydd heb gael eu rhannu'n gyhoeddus eto; prosiect Music of Another Tongue a chomisiwn i Erddig. | **Ar y trywydd iawn:** Mae cyfanswm o 6 cherdd ar y gweill. Yn ogystal â rhai'r chwarter diwethaf, mae'r rhain yn cynnwys cerdd am iechyd menywod, ymateb i gerdd Gwyneth Lewis yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a cherdd i'w pherfformio yng nghynhadledd Hotspot Economi Gylchol Ewrop yng Nghaerdydd ar 8 Hydref. Rydyn ni ar y trywydd iawn i gael 8 darn o waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. | |
| Antholeg wedi'i gyhoeddi yn cynnwys gwaith gan 14 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen datblygu awduron Cynrychioli Cymru yn y gorffennol. | Ar 13 Gorffennaf 2024, lansiwyd blodeugerdd (Un)Commmon, sy'n cynnwys gwaith gan yr 14 awdur a gymerodd ran yn ail flwyddyn cynllun Cynrychioli Cymru. Lucent Dreaming sydd wedi cyhoeddi (Un)Common. At hynny, cyfrannodd wyth o awduron sydd wedi cymryd rhan yng nghynllun Cynrychioli Cymru at flodeugerdd *And I Hear Dragons* Firefly Press (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024). Mae'r gyfrol honno wedi'i golygu gan Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, a gymerodd ran hefyd yn Cynrychioli Cymru 1. | **Wedi'i gwblhau:** Ymhlith y gweithiau cyhoeddedig eraill mae nofel gyntaf Anthony Shapland, *A Room Above a Shop*, sydd i'w chyhoeddi gan Granta yn 2025, a llyfr ffeithiol greadigol newydd Grace Quantock, *Living Well with Chronic Illness*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024. | |
| 2 gwaith newydd wedi'u hysgrifennu a'u harddangos yn greadigol (e.e. fel murlun neu drwy cod QR ar daith llenyddol) ym Methesda a Tyddewi, wedi eu creu ar y cyd rhwng awduron lleol a chyfranogwyr o'r gymuned, yn adlewyrchu ar themâu o'r argyfwng hinsawdd | Yn Chwarter 1, datgelwyd gwaith llenyddol yn Nhreherbert. Mae gweithgarwch yn mynd rhagddo ym Methesda, a bydd y cyfranwyr yn penderfynu ar y cynnyrch erbyn mis Rhagfyr 2024. Mae sgyrsiau'n dal i gael eu cynnal â hwyluswyr posibl yn Nhyddewi gyda'r nod o gwblhau'r prosiect erbyn mis Mehefin 2025 (bu mymryn o oedi gyda'r prosiect hwn). | **Oedi yn y broses:** Mae'r grŵp wedi penderfynu ar gerdd ryngweithiol Bethesda a bydd honno i'w gweld yng nghanolfan dreftadaeth newydd y dref.<br>Mae prosiect Tyddewi wedi dechrau gydag amserlen ddiwygiedig ar gyfer yr arddangosfa greadigol, a fydd yn barod ym mis Mehefin 2025. | |
| 60 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron dwys (megis Cynrychioli Cymru neu Gwrs Strategol TN) | Rydyn ni naill ai wedi cynllunio neu wedi cadarnhau y bydd 78 o unigolion o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn cymryd rhan. | **Wedi'i gwblhau.** Mae 57 o awduron wedi ymwneud â'r prosiect, a bwriedir rhoi 2 alwad arall ar gyfer cyrsiau strategol, sy'n golygu cyfanswm o 78. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Creadigrwydd

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Sector byrlymus sy'n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 3 astudiaeth achos yn cael eu cyhoeddi yn dathlu awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi elwa o raglenni LlC | Does dim wedi'u cyhoeddi eto, ond mae cynlluniau ar y gweill. Mae'r tîm effaith wedi bod yn trafod y ffordd orau o ddewis yr awduron sy'n ymddangos, fel bod hyn o fudd i'r gwaith ym meysydd effaith, cyfathrebu a chodi arian. Rydyn ni wedi penderfynu gweithio ar nifer ddethol o gwestiynau ac opsiynau ynghylch ffurfiau posibl astudiaeth achos cyn cysylltu ag awduron. | **Ar y trywydd iawn:** Cysylltwyd â 2 awdur – Rachel Dawson a Hammad Rind – y naill a'r llall wedi cael gyrfaoedd ysgrifennu diddorol ac amrywiol ac wedi ymwneud â Llenyddiaeth Cymru ar sawl achlysur. Mae disgwyl cyhoeddi yn Chwarter 3, gan gysylltu ag awdur arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn. | |
| 5 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron LlC yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf fel tiwtoriaid neu ddarllenydd gwadd ar gyrsiau Tŷ Newydd (wyneb yn wyneb neu yn rhithiol) | Mae'r gwaith i greu rhaglen Tŷ Newydd 2025 ar y gweill, gyda 14 o gyrsiau wedi'u cadarnhau hyd yma. Byddwn ni'n cadw'r targed hwn mewn golwg. Bydd Bethany Handley yn ymuno fel darllenydd gwadd yn ystod cwrs strategol yn Nhŷ Newydd ym mis Tachwedd. Bydd y darllenwyr gwadd yn cael eu cadarnhau yn Chwarter 2. | **Wedi'i gwblhau:** Mae 5 awdur wedi'u trefnu (Anthony Shapland, Bethany Handley, Rachel Dawson, Taylor Edmonds ac Abeer Ameer). | |
| 6 hwyluswyr Sgwennu'n Well yn cael eu cefnogi i gynllunio a chyflawni prosiectau creadigol ar gyfer iechyd a llesiant yn eu cymunedau dewisedig | Mae 6 o awduron wedi bod ar raglen hyfforddiant 6 mis, gan gynnwys 6 o sesiynau hyfforddiant ar Zoom ac un encil dros benwythnos yn Nhŷ Newydd. Mae un prosiect wedi'i gwblhau, un arall wedi cychwyn, a 4 prosiect arall wedi'u cynllunio ar gyfer mis Medi. | **Wedi'i gwblhau:** Mae 6 hwylusydd wedi cael cefnogaeth ac wedi cynllunio'u prosiectau. Serch hynny, mae ambell un yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i bartneriaid addas i'r prosiect er mwyn cyflawni'r gwaith, ac mae'r amserlenni'n newid. Mae'r cyfan ar y gweill, ac maen nhw'n cael llawer o gymorth unigol. | |
| 10 awdur sydd yn cymryd rhan yn Awduron wrth eu Gwaith yng Ngŵyl y Gelli yn adrodd datblygiad gyrfaol cadarnhaol o ganlyniad i gymryd rhan yn y cyfle datblygu dwys | Dim cynnydd swyddogol wrth gasglu adborth eto, ond mae'r anecdotau a gasglwyd yn ystod wythnos Awduron wrth eu Gwaith yn awgrymu bod y profiad wedi bod yn fuddiol iawn i'r holl awduron a gymerodd ran. | **Wedi'i gwblhau:** Cafwyd adborth gan Ŵyl y Gelli sy'n dangos effaith gadarnhaol. | |
| 10 awdur Byddar a/neu Anabl yn adrodd cynnydd yn eu hyder a gwelliant yn eu sgiliau creadigol ar ôl cymryd rhan yn y cwrs Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad | Mae ail flwyddyn Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad wedi'i chadarnhau, gyda'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i lofnodi â DAC a chontract wedi'i roi i'r tiwtor Kaite O'Reilly. Bydd y cyfle'n cael ei lansio ddiwedd mis Gorffennaf, gyda'r alwad ar agor am chwech wythnos. Mae disgwyl cynnal y cwrs ym mis Tachwedd 2024. Mae'r gwersi sydd wedi'u dysgu o'r flwyddyn gyntaf wedi'u casglu a'u rhannu â'r tiwtor. | **Ar y trywydd iawn:** Mae'r awduron wedi'u dewis ar gyfer y cwrs sydd i'w gynnal ym mis Tachwedd. Gwerthusiad pellach o'r grŵp cyntaf o fis Mawrth 24 i'w gynnal fel rhan o'r rhaglen ôl-ofal. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Ehangu Ymgysylltiad

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol
- Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru
- Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Rhaglen mewn partneriaeth â Hijinx yn darparu addysg i staff am arferion hygyrch a bydd cynlluniau i'w gweithredu wedi cwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Mae'r rhaglen wedi ei anelu at unigolion creadigol sydd ag anabledd dysgu a/neu yn niwrowahanol ac sydd o gymunedau sydd â phrofiad o hiliaeth. | Mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i gadarnhau â Hijinx ac mae'r prosiect bellach ar y gweill. Mae wyth o awduron o gymunedau sy'n profi hiliaeth ac awduron sy'n arddel hunaniaeth niwroamrywiol wedi'u dewis i fod yn rhan o'r cyfnod preswyl ym mis Hydref 2024. | **Ar y trywydd iawn:** Encil preswyl i'w gynnal 30 Medi – 4 Hydref. Adroddiad am ddysgu i'w rannu â'r holl staff ym mis Ionawr 25 | |
| Staff yn adrodd cynnydd mewn hyder ac ymwybyddiaeth wrth wneud prosiectau yn hygyrch ac yn gynhwysol, ac yn defnyddio chyfarfodydd staff a creadigol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. | Dim cynnydd eto, ond cynlluniau i ddatblygu a chyflwyno hyn yn Chwarter 2. | **Ar y trywydd iawn** | |
| Staff yn dangos hyder wrth roi ein canllawiau Cyfathrebu Hygyrch (wedi ei gyflwyno i'r tîm yn Chwefror 2024) ar waith. | Yn un o gyfarfodydd y staff ym mis Awst, bydd y tîm Cyfathrebu'n gofyn i'r tîm pa mor hyderus ydyn nhw ynghylch dilyn y canllawiau, a byddan nhw'n trefnu sesiynau i roi hwb i hyder y staff os bydd angen hynny. | **Ar y trywydd iawn:** 14 aelod o staff wedi llenwi holiadur am eu hyder. Nid yw nifer o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r Canllawiau Cyfathrebu Hygyrch eto, ond mae'r mwyafrif wedi dweud eu bod nhw naill ai'n hyderus iawn neu'n weddol hyderus yn dilyn y canllawiau. I wella'r ffigur ymhellach, bydd y tîm cyfathrebu yn egluro'r canllawiau yn un o gyfarfodydd y staff, ac yn rhoi cyfle i'r rheini sydd ddim wedi llwyddo i ymarfer creu dogfennau hygyrch wneud hynny. | |
| 150 o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu hariannu trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, a dwy astudiaeth achos yn cael eu rhannu gan drefnwyr digwyddiadau yn manylu sut i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. | 117 o sesiynau unigol wedi'u hariannu hyd yma. Bydd astudiaethau achos yn cael eu trefnu cyn diwedd y flwyddyn. | **Ar y trywydd iawn:** 110 o sesiynau wedi'u hariannu erbyn 30 Medi. Un astudiaeth achos Gymraeg wedi'i chadarnhau (Cylch Llenyddol Pen Llŷn) ac un Saesneg i'w chadarnhau yn Chwarter 3. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Ehangu Ymgysylltiad

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol
- Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru
- Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 40 pobl ifanc yn mynychu Sgwadiau Sgwennu am y tro cyntaf ac yn adrodd yn bositif am sgiliau creadigol a llesiant. | Dim cynnydd eto - bu oedi gyda threfniadau cyllid y sgwad, ac mae cynllun newydd wedi'i greu ar gyfer y prosiect. Mae disgwyl i'r gweithgarwch gychwyn o fis Medi 2024 | **Ar y trywydd iawn:** 2 Sgwad yn barod i ddechrau yn ystod hanner tymor mis Hydref, gyda'r broses gofrestru i gyfranogwyr i agor cyn hir. | |
| 20 aelod ifanc o'r gymuned LHDTC+ yn derbyn gweithdy gan Fardd Plant Cymru, Nia Morais, yn Eisteddfod yr Urdd. | Cymerodd 19 o bobl ran yn y sesiwn ym mis Mai 2024 | **Ddim wedi'i gyflawni:** ond yn ddigon agos? | |
| 60 aelod o'r gymuned ym Methesda yn cymryd rhan mewn gweithgaredd trwy brosiect Llên mewn Lle a'r partneriaid lleol yn adrodd effeithiau positif ar y gymuned leol a'u hymwneud â Llenyddiaeth. | Mae'r sesiynau ysgrifennu wedi cael croeso mawr ym Methesda. Mae 16 o unigolion yn perthyn i'r grŵp ac yn mynychu'r sesiynau'n rheolaidd. Mae'r prosiect hefyd wedi cefnogi gweithdy ysgrifennu i bobl ifanc gyda 19 yn bresennol, ynghyd â noson meic agored, gyda rhai o'r grŵp ysgrifennu yn cymryd rhan ac 8 arall yn y gynulleidfa ac yn cymryd rhan. | **Ar y trywydd iawn:** 50 wedi'u cyrraedd hyd yma, drwy grŵp ychwanegol i'r teulu a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf. Cysylltir â chyfranogwyr newydd drwy ddigwyddiadau meic agored a digwyddiadau eraill sydd i ddod. | |
| Gweithgaredd mapio o lle mae ariannu Ysbrydoli Cymunedau wedi cael ei ddosbarthu ers 2021, i'w gwblhau erbyn Haf 2024, gydag ardaloedd gwag wedi'u hadnabod ac o ganlyniad cyflawni gwaith i feithrin perthynas / cefnogaeth i ymgeisio ar gyfer y gronfa. | Dim cynnydd eto- i fod i gychwyn ym mis Gorffennaf 2024 | **Wedi'i gwblhau:** Gwaith mapio wedi'i gwblhau ym mis Medi 2024, gan ganfod bylchau a chreu cynllun gweithredu i gysylltu â'r prif dargedau | |
| 10 aelod o'r gymuned ffermio yng nghanolbarth Cymru yn ymwneud â gweithgaredd llenyddol trwy Sgwennu'n Well i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. | Y prosiect wedi'i ohirio tan fis Medi 2024 | **Yn annhebygol o gwblhau:** Nid yw'r prosiect hwn wedi dechrau eto oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i bartner addas, drwy gyfrwng y Gymraeg, yng ngogledd Powys. Mae'n amlwg bod angen cynnal y prosiect, ond mae'r gwaith ar y sylfeini wedi bod yn anodd. Rydyn ni'n helpu'r artist i greu cynllun newydd ar gyfer y prosiect, a hwnnw'n gynllun y bydd modd ei gyflawni. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Y Gymraeg

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Dros 400 o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn gweithio gyda Bardd Plant Cymru, Nia Morais, ar sesiwn farddoniaeth Ecphrastig. Mae'r prosiect yma yn cyfrannu at Fenter Siarter Iaith, yn hwyluso gweithgareddau creadigol sydd yn ysbrydoli disgyblion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau. | Cymerodd 410 o fyfyrwyr ran yn y sesiwn, a drefnwyd fel rhan o brosiect Celf ar y Cyd gydag Amgueddfa Cymru. Cafodd adnoddau ar-lein eu creu hefyd ar gyfer Hwb, a bydd y rhain yn cyrraedd llawer iawn mwy o ddisgyblion dros amser. | Wedi'i gwblhau | |
| Encil Llyfrau Lliwgar ar gyfer awduron Cymraeg LHDTC+ yn denu 12 awdur, 25% o'r rhain sydd heb ysgrifennu yn y Gymraeg yn y gorffennol. | Dim cynnydd eto - mae disgwyl cynnal y cwrs ym mis Tachwedd. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 13 o awduron wedi'u dewis ar gyfer y rhaglen. Mae 38% o'r grŵp gan amlaf yn arfer eu crefft yn Saesneg. | |
| Y 12 awdur ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghwrs Olwen yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac wedi'u hysbrydoli i ddechrau eu gyrfaoedd ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg. | Dim cynnydd eto - mae disgwyl cynnal y cwrs ym mis Rhagfyr. | **Ar y trywydd iawn** | |
| Y Wobr, a'r enillwyr Cymraeg, yn cael sylw mewn 2 ddarn o gyfryngau Saesneg dros y DU. | Llwyddon ni i sicrhau'r un math o sylw â llynedd, ond heb ddatblygu ar hyn y tu allan i Gymru. Y deunydd a oedd â'r potensial mwyaf i gyrraedd cynulleidfa drwy'r Deyrnas Unedig oedd yr erthyglau ar wefan Bookseller a gwefan BBC News Wales. | Wedi'i gwblhau | |
| 5 bardd o du allan i Gymru yn cymryd rhan mewn prosiect gyda Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, i ddysgu rhagor am y gynghanedd. Y 5 bardd yn ysgrifennu 5 cerdd newydd wedi ei ysbrydoli gan y gynghanedd. | Mae 8 o feirdd yn rhan o'r prosiect hwn, gyda 7 wedi cwblhau cerddi hyd yma. | Wedi'i gwblhau | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Y Gymraeg

Canlyniadau:
- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Sylw yn y cyfryngau i deithiau'r 5 cynganeddwyr sydd yn ymgolli yn nhraddodiad llenyddol y gynghanedd; gyda'r cyhoedd trwy Barddas, a Radio Cymru | Cafodd lansiad y prosiect sylw ar Radio Cymru y llynedd, ond does dim sylw wedi'i roi iddo ar yr orsaf nac yn Barddas eleni eto. Y bwriad yw cael mwy o sylw tuag at ddiwedd y cynllun, ond mae wedi cael sylw ar Golwg360  a Phodlediad Clera. | **Ar y trywydd iawn:** Dim cynnydd yn y chwarter hwn. Mae disgwyl datganiad i'r wasg yn Chwarter 3, gan gynnwys sylw yn Barddas. | |
| Unwaith yr wythnos, aelod o'r tîm sydd yn siarad Cymraeg i ymuno â chyfarfod grŵp answyddogol i gefnogi datblygiad dysgwyr, helpu i ysgogi sgyrsiau mewn man diogel a chynyddu hyder dysgwyr. | Dim cynnydd eto | **Ar y trywydd iawn:** Y cyfarfod cyntaf ar 23 Medi ac i'w cynnal yn wythnosol. | |
| Datblygu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cwrs pwrpasol ar gyfer dysgu Cymraeg i awduron sydd yn cymryd rhan yn ein rhaglenni, yn dilyn cynllun peilot yn 2023. | Ar y gweill: mwy o fanylion i'w hychwanegu yn Chwarter 2 | **Wedi'i gwblhau:** Mae'r bartneriaeth wedi dechrau, gyda 12 o awduron Llenyddiaeth Cymru (gan gynnwys Bardd Cenedlaethol Cymru ac aelodau grŵp Cynrychioli Cymru) ac 1 aelod o staff wedi'u cofrestru ar gwrs dwys, ar-lein newydd ar gyfer dysgwyr Cymraeg Lefel Mynediad. Bydd y cwrs yn dod i ben gyda chwrs preswyl yn Nhŷ Newydd yn Chwarter 4. | |
| 1 astudiaeth achos yn cael ei gyhoeddi yn dathlu awdur sydd yn siaradwr Cymraeg newydd ac wedi elwa o raglenni LlC. | Bwriedir cysylltu â 2 awdur penodol yn y misoedd nesaf | **Ar y trywydd iawn:** Mae astudiaeth achos yn cael ei chynnal gyda Hammad Rind. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Cyfiawnder Hinsawdd

Canlyniadau :

– Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd
– Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy
– Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr o EcoDewi ym Mhenrhyn Tyddewi yn teimlo wedi eu grymuso i daclo materion cyfiawnder hinsawdd leol, a chynnydd yn y teimlad o gydlyniad cymunedol yn dilyn cyfranogiad ym mhrosiect Llên mewn Lle. | Dim cynnydd - Y gwaith datblygu'n mynd rhagddo yn Nhyddewi. Bu oedi yn y prosiect er mwyn llunio cytundeb â phartner lleol. Y bwriad yw trefnu hwylusydd a dechrau'r gweithgarwch yn Chwarter 2. | **Ar y trywydd iawn:** Mae Kerry Steed wedi'i phenodi yn hwylusydd lleol a bydd y sesiynau'n dechrau ym mis Hydref. | |
| 100 o blant ym Mhowys yn ymwneud ag ysgrifennu am natur a materion hinsawdd o fewn eu hardaloedd lleol trwy weithdai gyda'r Children's Laureate. | Mae disgwyl i hyn ddigwydd yn nhymor yr hydref. Cysylltwyd ag ysgolion | **Wedi'i gwblhau:** Cwblhaodd Alex Wharton, y Children's Laureate Wales, daith gerdded 5 diwrnod ym Mhowys a ddenodd gryn gyhoeddusrwydd, gan ymweld ag ysgolion cynradd a thrafod byd natur, y dirwedd a'r argyfwng hinsawdd. Cyrhaeddwyd 5 o ysgolion a 530 o ddisgyblion, gan gerdded 50 milltir! | |
| 14 awdur sydd yn cymryd rhan yn y Cwrs Egin Awduron wedi eu cyfarparu a'u grymuso i ddod â sylw i'r argyfwng hinsawdd trwy eu hysgrifennu. | Dim cynnydd eto – y cwrs i'w gynnal yn Chwarter 3 | **Ar y trywydd iawn:** Y cwrs i'w gynnal ym mis Mawrth 24. | |
| Erbyn mis Mawrth 2025, cwblhau gweithgaredd mapio Rhestr Awduron Cymru i ddeall lledaeniad hwyluswyr llenyddol ar draws Cymru, yn sicrhau bod hwyluswyr lleol gallu cael eu blaenoriaethu. | Dim cynnydd eto | **Anhebygol o'i gyflawni erbyn Mawrth:** Mae targedau cynaliadwyedd eraill wedi cael blaenoriaeth dros hyn. Bellach wedi'i amlygu, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol i drafod â'r aelod o staff sy'n gyfrifol yn Chwarter 3 a chreu cynllun ar gyfer cyflawni hyn. | |

## Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Cyfiawnder Hinsawdd

Canlyniadau :

- Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd
- Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy
- Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Erbyn Rhagfyr 2024, fframwaith ar gyfer rhedeg digwyddiadau llenyddol cynaliadwy yn cael ei greu a'i rannu gyda'r tîm cyfan, a gyda threfnwyr digwyddiadau trwy ein gwefan. | Dim cynnydd eto | **Ar y trywydd iawn:** I'w gyflawni yn Chwarter 3 | |
| Asesu cost bwyd y pen, yn edrych ar flaenoriaethu cyflenwyr lleol dros archfarchnadoedd/cyfanwerthwyr mawr. Cynnig yn cael ei greu erbyn Ionawr 25, gyda camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 25/26. | Dim cynnydd eto | **Ar y trywydd iawn:** I'w gyflawni dros y gaeaf yng nghyfnod tawelach Tŷ Newydd. | |
| Erbyn mis Mawrth 2025, ymchwilio ymarferoldeb olrhain allyriadau carbon Llenyddiaeth Cymru (uniongyrchol ac eilaidd), gan gynnwys cynllun gweithredu. | Dim cynnydd eto | **Ar y trywydd iawn:** Rydyn ni bellach yn mesur yr hyn y gallwn ni'i fesur (teithio ac argraffu). Mae'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn cael ei ailddrafftio yn Chwarter 3 a bydd hyn yn cynnwys ymchwil ynghylch sut i dracio mwy o elfennau/holl elfennau ein hallyriadau carbon os bydd hynny'n ymarferol. | |
| Gofyn i staff esbonio pam na ddefnyddwyd trafnidiaeth gyhoeddus wrth lenwi Ffurflenni Hawlio Teithio a Chynhaliaeth er mwyn annog ymwybyddiaeth ofalgar wrth deithio ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, ac adnabod atebion posibl ar gyfer lleihau allyriadau teithio. | Dim cynnydd eto | Dim cynnydd eto | |
| Sefydlu man gwefru ceir trydanol yn Nhŷ Newydd a'i hyrwyddo er mwyn annog defnydd. | Dim cynnydd eto – mae angen cadarnhau bod cynllun talebau'r llywodraeth yn dal i fynd rhagddo | **Ar y trywydd iawn:** Cysylltwyd â thrydanwr. Yn aros iddo ymweld â'r safle. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

## Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Meithrin Talent

Canlyniadau:
- Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg.
- Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda'u 'sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi
- Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi diweddariad canllawiau Ffioedd Awduron a chanllawiau Cyflogaeth Deg ym mis Mawrth 2025. Ffioedd i gael eu olrhain yn Ebrill 2024, a ffioedd ar gyfer 2024/25 i gael eu olrhain a mesuro yn erbyn canllawiau. | Mae Owen yn gweithio ar ddata 23/24 ar hyn o bryd, a fydd yn barod i'w diweddaru ym mis Gorffennaf 2024. | **Wedi'i gwblhau:** Cyhoeddwyd ym mis Awst – ffioedd wedi'u diweddaru ar gyfer 24/25 ac adolygiad o'r ffioedd a dalwyd yn 23/24. Mae system newydd wedi'i datblygu i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gyflymach y flwyddyn nesaf. | |
| Aelod o'r uwch dîm yn cymryd rhan yn rhaglen hyfforddi Newid Diwylliant/Culture Change, sydd wedi ei anelu at ddatblygu amrywiaeth mewn rolau arweiniol. Lledaenu'r dysgu yn fewnol, a gweithrediadau priodol wedi eu cynllunio/gweithredu. | Cynhaliwyd un diwrnod hyfforddiant yn y chwarter hwn, yn canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant cynhwysol. Rhannwyd yn un o gyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain. | **Ar y trywydd iawn:** Mae Claire ac Alys wedi mynychu 5 o ddiwrnodau hyfforddiant rhyngddyn nhw, gyda'r gwersi cychwynnol yn cael eu rhannu yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain. Mae 2 ddiwrnod arall wedi'u trefnu ym mis Tachwedd/Rhagfyr. | |
| Cynnig cyfleoedd cyflogedig uniongyrchol i 175 awdur proffesiynol; i fod yn diwtor, mentor, hyfforddi neu berfformio ar raglenni LlC. | Talwyd 44 o awduron yn ystod Chwarter 1. | **Ar y trywydd iawn:** 85 awduron unigol wedi talu yn ystod chwarter 2, y cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ydy 111. | |
| 50% o gyfranogwyr Cynrychioli Cymru, sydd yn dymuno, i fynd ymlaen i gyhoeddi eu gwaith o fewn tair mlynedd o gymryd rhan yn y rhaglen. | Yn Chwarter 1, datblygwyd traciwr mewnol, gan gofnodi cyhoeddiadau a llwyddiannau cyfranogwyr Cynrychioli Cymru. | **Yn mynd rhagddo:** Y traciwr mewnol yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Hyd yma, mae 62% o gyfranogwyr Cynrychiolwyr Cymru wedi mynd yn eu blaenau i gyhoeddi (gan gynnwys mewn antholegau). Mae 30% wedi cyhoeddi eu cyfrolau eu hunain. (Sylwer i'r grŵp cyntaf o awduron "raddio" ar ddiwedd 2021, felly nid yw'r 3 blynedd wedi dod i ben eto.) | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Meithrin Talent

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:

- Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg.
- Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda'u 'sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi
- Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Datblygu'r cynllun Awduron wrth eu Gwaith, mewn partneriaeth â Gŵyl y Gelli, yn 2025 i flaenoriaethu ac annog ceisiadau o awduron heb gynrychiolaeth deg, ac anelu at hanner o'r garfan i hunan-adnabod fel eu bod wedi wynebu rhwystrau. | Dim cynnydd eto – mae disgwyl recriwtio yn Chwarter 4 | **Ar y trywydd iawn:** Mae sgyrsiau'n mynd rhagddyn nhw gyda Gŵyl y Gelli sydd ar hyn o bryd yn gwneud cais i Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal y rhaglen. Os bydd hynny'n digwydd, byddwn ni'n helpu gyda'r gwaith recriwtio ac yn blaenoriaethu awduron sy'n cael eu tangynrychioli wrth farchnata. Serch hynny, yn y pen draw, nid ni fydd yn penderfynu pwy gaiff ei ddewis, felly nid oes modd gwarantu y cyrhaeddir y targed hwn. | |
| 5 cynganeddwyr newydd o gynllun Pencerdd, sydd heb gynrychiolaeth deg o fewn y maes cynghaneddu, i'w cael eu paru gyda mentor unigol. | Parwyd 5 o feirdd gyda'u mentoriaid (athrawon barddol) | **Wedi'i gwblhau:** Serch hynny, nid yw 1 bardd wedi bod yn mynychu'r sesiynau mentora ac efallai na fydd yn cwblhau'r rhaglen. | |
| Bardd Cenedlaethol Cymru a'i gwaith yn cael ei llwyfannu mewn 5 digwyddiad proffil uchel yng Nghymru, megis agoriad y coetir coffa Erddig ym mis Mehefin. | 2 hyd yma – Gwobrau Cenedl Noddfa a Gŵyl y Gelli. Mae oedi gyda Choetir Erddig tan fis Medi, ac mae eraill yn yr arfaeth. | **Ar y trywydd iawn:** Yn ogystal â digwyddiadau Chwarter 1, mae 3 wedi'u cynllunio; agoriad coetir Erddig (bu llawer o oedi), cynhadledd Economi Gylchol Ewrop ar 8 Hydref, a chynhadledd UKRI ar 18 Hydref. At hynny, mae digwyddiad y tu allan i Gymru yn cael ei drefnu gyda Llysgenhadaeth Iwerddon yn Llundain i ddathlu beirdd o Gymru ac Iwerddon. | |
| Enillwyr ac awduron ar restr fer Llyfr y Flwyddyn yn cael eu cefnogi gan LlC i gynnal o leiaf 20 digwyddiad mewn cymunedau ar draws Cymru, yn lledaenu ymwybyddiaeth o'u gwaith a'r wobr. | Cefnogwyd 13 o ddigwyddiadau drwy gyllid digwyddiad Gwobr Llyfr y Flwyddyn. Mae enillwyr y prif wobrau i gyd hefyd wedi cael gwobr ychwanegol gwerth £1000 i'w wario ar ddigwyddiadau dros y flwyddyn, a bydd y tîm yn cwrdd â nhw i drafod hyn dros yr wythnosau nesaf. | **Wedi'i gwblhau:** 27 o ddigwyddiadau wedi'u trefnu. Dosraniad da ledled y wlad, o Ynys Môn i Dyddewi. | |
| 190 o awduron unigol wedi eu cefnogi trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i weithio mewn cymunedau ar draws Cymru. | 118 o awduron wedi'u cefnogi yn Chwarter 1 | **Wedi'i gwblhau:** 182 o awduron wedi cael eu cefnogi hyd yma, gyda 265 o ffioedd awduron yn cael eu talu. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Trawsnewid

Canlyniadau:

- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a'i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Erbyn mis Medi 2024, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd wedi cael ei drafod a chytuno gyda Chyngor Llyfrau Cymru, yn diffinio ein rolau ac adrannau ar gyfer cydweithio. | Dim cynnydd eto. | **Oedi yn y broses, ond ar y trywydd iawn:** Dogfen wedi'i drafftio ac i'w thrafod yn y cyfarfod â Chyngor Llyfrau Cymru ar 23 Hydref. | |
| Erbyn Mawrth 2025, arwain 3 cyfarfod i drafod materion sector gyda phartneriaid llenyddol ar draws Cymru. | Cynhaliwyd un cyfarfod ar 3 Ebrill gyda Chyngor Llyfrau Cymru, Mudiad Meithrin a Chyngor Gwynedd i drafod cynrychiolaeth a rhestrau darllen amrywiol i gylchoedd meithrin. Mae disgwyl trefnu cyfarfodydd â Chyfnewidfa Lên Cymru/Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau i drafod cyfieithu a gweithio gyda phartneriaid Ewropeaidd dros yr haf. | **Ar y trywydd iawn:** Cyfarfod â Phanel Llên Canolog yr Eisteddfod, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector llenyddol, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru a Cwlwm Cyhoeddwyr. | |
| Erbyn Mawrth 2025, cyflawni ymgyrch cyfathrebu ar y cyd â sefydliadau llenyddol allweddol yng Nghymru i esbonio ein rolau unigol a meysydd ar gyfer cydweithio. | Dim cynnydd eto. Cyfarfodydd cwmpasu i'w cynnal dros yr haf a'r hydref, a'r ymgyrch gyfathrebu i'w chynllunio dros y gaeaf. | **Ar y trywydd iawn:** Dim cynnydd eto | |
| Rheolwyr llinell yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu gallu i ddelio â sgyrsiau anodd gyda chydweithwyr, o ganlyniad i hyfforddiant. | Dim cynnydd eto, i'w ddatblygu a'i gyflwyno yn Chwarter 2. | **Ar y trywydd iawn:** Holiadur arolwg staff wedi'i ddylunio, a bydd yn cael ei anfon ym mis Hydref | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Trawsnewid

Canlyniadau:

- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a'i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 | Cynnydd yn chwarter 1 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cyflawni diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff ac ymddiriedolwyr yn Hydref 2024 sydd yn cynnig hyfforddiant, cynnydd mewn dealltwriaeth o strategaeth LlC, a meithrin ethos o gydweithio rhwng y ddau grŵp. | Dyddiadau wedi'u pennu ar gyfer mis Tachwedd 2024 – y rhaglen i'w threfnu cyn hir. | **Ar y trywydd iawn** | |
| Ein tîm yn dweud eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan Llenyddiaeth Cymru fel cyflogwr. | Dim cynnydd eto– arolwg y staff i'w gynnal yn ddiweddarach yn y Flwyddyn. | **Ar y trywydd iawn:** Arolwg y staff yn barod i'w gyflwyno ym mis Hydref | |
| Cyfranogwyr Sgwennu'n Well yn dweud eu bod nhw'n teimlo bod y rhaglen wedi datblygu rhwydwaith cryf i rannu eu gwybodaeth newydd er mwyn ysbrydoli eraill, yn cynnwys trwy bartneriaeth â WAHWN. | Adborth ar lafar yn y sesiynau dal-i-fyny a'r sesiynau hyfforddiant ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Mae'r cyfranogwyr wedi dweud eu bod nhw'n teimlo'u bod wedi dysgu nifer o sgiliau newydd. Hefyd, mae'r grŵp Whatsapp maen nhw wedi'i greu rhyngddyn nhw wedi bod yn ddefnyddiol iawn i rannu arferion da a datrys problemau. Dyfyniadau: *'Rydw i wedi dysgu llawer am fanteision ac anfanteision bod yn bartner i sefydliad, yn hytrach na gweithio'n fewnol mewn sefydliad. Mae nifer o bethau y byddwn i'n eu gwneud ymlaen llaw y tro nesaf cyn y gweithdai' 'Roeddwn i eisiau dweud pa mor fuddiol ydy'r gweithdai hyn. Diolch am ddod o hyd i hwyluswyr mor wybodus, profiadol ac ysbrydoledig. Rydw i'n dod ohonyn nhw'n llawn brwdfrydedd. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi dysgu cymaint gan Jane heddiw. Ac mae'i hangerdd hi'n heintus!'* | **Yn mynd rhagddo:** Mae'r grŵp wedi creu rhwydwaith cefnogol ac mae'r adborth yn gadarnhaol, er y bu trafferthion wrth gyflawni. | |
| 4 hwylusydd llenyddol yn derbyn hyfforddiant ar ymgorffori llesiant i mewn i weithdai llenyddol gyda phobl ifanc, trwy'r Sgwadiau Sgwennu a CLW/BPC. | Dim cynnydd eto. | **Ar y trywydd iawn** | |

# Cynaladwyedd: Uchafbwyntiau a diweddariadau

## Cynnydd chwarter 2

Wrth arlwyo, mae Tŷ Newydd wedi treialu prynu nifer o fwydydd organig, a byddwn ni'n cynnal dadansoddiad cost ar ddiwedd y chwarter i benderfynu a yw'r pris uwch yn fforddiadwy yn barhaol. Rydyn ni hefyd wedi gwneud ymdrech i brynu mwy o gynnyrch lleol – er enghraifft jamiau a sawsiau ac ati o'r Ffôr yn hytrach nag o'r archfarchnadoedd. Mae'r gwesteion wedi hoffi'r newid hwn ac wedi canmol y cynnyrch lleol sydd ar gael yn y ganolfan ysgrifennu.

Mae gwaith i ailddrafftio'r cynllun gweithredu cynaliadwyedd yn mynd rhagddo, gyda'r ddwy adran gyntaf wedi'u drafftio. Mae'r gwaith ar y trywydd iawn i gymeradwyo hwn erbyn diwedd Chwarter 3. Ochr yn ochr â hyn, mae fframwaith ar gyfer cynnal digwyddiadau llenyddol ar y gweill i'w ddefnyddio'n fewnol ac i'w rannu'n allanol (er enghraifft, wrth i drefnwyr digwyddiadau wneud cais am gyllid drwy'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau).

## Chwarter 2 Targedau a fethwyd

Mae Tŷ Newydd ar hyn o bryd yn cael ei gynhesu drwy system wres canolog sy'n defnyddio boeler nwy. Targed yn y tymor hir yw gosod system ynni wahanol ar gyfer y gwresogi yn Nhŷ Newydd. Serch hynny, mae ymarferoldeb a chost sylweddol cyflwyno system wahanol, er enghraifft system fiomas neu system Pwmp Gwres o'r Aer, yn golygu y bydd yn rhaid i'r targed hwn fod yn uchelgais yn unig am y tro. Gwelwyd mai nwy yw'r prif beth sy'n achosi allyriadau carbon yn Nhŷ Newydd, a hwnnw'n cyfrannu 8,598kg o garbon bob blwyddyn (amcangyfrifir bod hyn yn 55.4% o allyriadau carbon blynyddol Tŷ Newydd yn ein cynllun lleihau carbon).

Mae Llenyddiaeth Cymru yn dal i ddefnyddio Now: Pensions fel y system ddiofyn ar gyfer cyfrannu at bensiynau'r staff. Mae hynny'n golygu buddsoddi mewn cwmnïau tanwydd ffosil fel rhan o'r portffolio, er gwaethaf ymrwymiad Now: Pensions i fod yn sero net erbyn 2050. Mae cael gwared ar asedau sy'n gysylltiedig â thanwyddau ffosil wedi'i enwi yn "drothwy" cymdeithasol y mae'n rhaid ei gyrraedd er mwyn datgarboneiddio'n gyflym ar lefel fyd-eang, sy'n golygu y gallai hwn fod yn gam gweithredu bychan ond go bwysig.

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2024 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Cyffredinol: Cyngor i awduron | Mae nifer o awduron llawrydd o Gymru wedi cysylltu â ni'n uniongyrchol, a/neu wedi ysgrifennu'n gyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol, i gwyno nad yw cyrff comisiynu'n dilyn arferion cyflogaeth da. | Mae angen i ni wneud mwy o waith i rannu a rhoi cyhoeddusrwydd i'n dogfen, Ein Haddewid i Awduron, sy'n cynnwys canllawiau am ffioedd i awduron. Dyma adnoddau sydd ar gael i'n hawduron eu defnyddio, a'u dyfynnu, er mwyn sicrhau bod cyrff comisiynu eraill yn trin awduron â pharch. Rydyn ni hefyd yn bwriadu rhoi rhagor o hyfforddiant i awduron ynghylch sut i ddatblygu gyrfaoedd proffesiynol yn eu ffurfiau celfyddydol. |
| Tŷ Newydd: pecynnau gwybodaeth i awduron a thiwtoriaid | Mae pethau bach wedi digwydd yn ddiweddar sydd wedi cael effaith ar unigolion. Er enghraifft, defnyddio'r rhywedd anghywir wrth gyfeirio at westeion anneuaidd sawl gwaith. | Byddwn ni'n datblygu ein pecyn gwybodaeth a'n briffiau i diwtoriaid a gwesteion i sicrhau bod canllawiau a chyngor yn cael eu rhoi er mwyn i bobl barhau i ystyried Tŷ Newydd yn lle diogel a chroesawgar sy'n rhoi anogaeth i bawb. |
| Cynrychioli Cymru | Yn debyg i'r wers i'w dysgu uchod: mae rhai o awduron Cynrychioli Cymru eleni wedi dweud bod rhai o'r ymarferion ysgrifennu creadigol, a rhai o'r sgyrsiau, wedi creu sbardun, oherwydd natur y themâu sy'n cael eu trafod. | Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n datblygu nodiadau briffio gwell i hwyluswyr gwadd, ac yn sicrhau bod pob sgwrs/gweithdy yn dechrau drwy sôn am y posibilrwydd o greu sbardun. Byddwn ni'n gweithio'n agosach gyda'r grŵp o awduron i gael cyfarfodydd rheolaidd er mwyn trafod llesiant a grym llenyddiaeth (yn gadarnhaol ac yn negyddol ill dau) |
| EUNIC | Mae datblygu prosiect mawr a fydd yn golygu cyfraniad gan sawl gwlad Ewropeaidd wahanol wedi arwain at nifer o wersi i'w dysgu. Rydyn ni'n sicr y bydd hynny'n wir drwy gydol gweddill y prosiect hefyd. Un enghraifft oedd ein rhagdybiaeth y byddai sefyllfa ieithoedd lleiafrifol mewn gwledydd Ewropeaidd eraill yn debyg iawn i'r Gymraeg, ac yn wynebu heriau tebyg. Wrth gwrs, nid yw pethau mor syml â hynny. | Mae angen parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn EUNIC, ond hefyd gyda phartneriaid yng Nghymru, sydd â phrofiad blaenorol o weithio gyda gwledydd Ewropeaidd i helpu i ddatblygu'r prosiect pwysig hwn. |